

RHIF YR YMCHWIL GYMDEITHASOL: 12/2017

DYDDIAD CYHOEDDI: 10/07/2017

Adroddiad Technegol: Dull o weithredu dadansoddiad atchweliad a'r modelau a gynhyrchwyd (wedi'i ddiweddarau)

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein dull sylfaenol o gynnal dadansoddiad atchweliad logistaidd o ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol. Mae'r adran gyntaf yn rhoi manylion y dull a ddefnyddir gennym yn fras; mae'r atodiad yn cynnwys manylion y modelau atchweliad yr ydym wedi'u creu.

Nodwch fod yr adroddiad hwn yn cynnwys modelau atchweliad ychwanegol i'r rhai a gyhoeddwyd yn yr adroddiad gwreiddiol ar 13 Ebrill 2017; Gweler: [Adran B – Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014-15: Bwletin](#) ac [Adran C – Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014-15: Cwisiau](#).

Dadansoddiad atchweliad

Mae dadansoddiad atchweliad yn mynd y tu hwnt i ystadegau disgrifiadol lle archwilir y berthynas rhwng un newidyn annibynnol ac un newidyn dibynnol. Er bod ystadegau disgrifiadol yn gallu cael eu cynhyrchu'n gyflym a bod y canfyddiadau'n gallu bod yn ddefnyddiol, maent hefyd yn gallu anwybyddu'r perthnasoedd cymhleth rhwng newidynnau. Mae dadansoddiad atchweliad yn ei gwneud yn bosibl archwilio'r berthynas rhwng newidyn esboniadol a'r newidyn canlyniad gan roi ystyriaeth ar yr un pryd i newidynnau esboniadol eraill sy'n cael effaith ar y canlyniad.

Y dadansoddiad yr ydym ni'n ei ddefnyddio ar gyfer y rhan fwyaf o ganlyniadau mewn arolygon yw **atchweliad logistaidd deuaidd**. Defnyddir atchweliad logistaidd am ei fod yn addas wrth ystyried canlyniadau categorïaidd (sef ffurf y rhan fwyaf o newidynnau'r Arolwg Cenedlaethol). Er ei bod yn bosibl cynnal atchweliad logistaidd lluosnomaidd â chanlyniadau categorïol lluosog, rydym fel arfer yn defnyddio atchweliad logistaidd gyda chanlyniadau deuaidd (e.e. 'yn fodlon ar yr ymweliad â'r meddyg teulu' o'i gymharu â 'ddim yn fodlon') er mwyn hwyluso dealltwriaeth. Mae newidynnau canlyniad â mwy na dau ganlyniad yn cael eu codio mewn fformat deuaidd cyn dadansoddiad atchweliad (er enghraifft, cyfuno 'bodlon iawn' a 'gweddol fodlon' i greu categori 'bodlon'). Wedyn defnyddir atchweliad logistaidd i ragfynegi'r tebygolrwydd o fod mewn categori penodol yn seiliedig ar werthoedd y newidynnau annibynnol (rhagfynegyddion).

Y weithdrefn

Defnyddir **atchweliad logistaidd tuag yn ôl** er mwyn creu'r modelau terfynol. Yn gyntaf, ymchwilir i'r newidyn dibynnol a'r holl newidynnau perthnasol eraill gan ddefnyddio

ystadegau disgrifiadol. Caiff y rhai sy'n rhagfynegyddion anarwyddocaol ar lefel 0.05 eu hepgor. Caiff yr holl newidynnau arwyddocaol sy'n weddill eu gosod yn y model cychwynnol. Mae cyfraniad pob newidyn yn cael ei asesu trwy ystyried gwerth arwyddocâd y prawf-t ar gyfer pob rhagfynegydd. Mae'r newidyn â'r gwerth-p uchaf yn cael ei dynnu allan, a'r weithdrefn yn cael ei hailadrodd, nes bod dim newidynnau heblaw am y sy'n arwyddocaol ar y lefel 0.05 wedi'u cynnwys. Mae sawl ffordd wahanol y gellid rhoi newidynnau i mewn i'r model. Rydym fel arfer yn dethol tuag yn ôl gan fod dulliau tuag ymlaen yn aml yn ei gwneud yn bosibl colli newidynnau pwysig am fod newidynnau eraill yn cael eu rhoi i mewn i'r model yn gyntaf ("effeithiau atalydd").

Lluosgyflinelledd

Mae cydberthynas rhwng llawer o'r newidynnau a gesglir yn yr Arolwg Cenedlaethol. Lluosgyflinelledd (a elwir hefyd yn gyflinelledd) yw lle mae un newidyn esboniadol neu fwy mewn model atchweliad yn cydberthyn mor agos fel eu bod yn rhagfynegi ei gilydd yn llinellol gyda chryn gywirdeb. Fodd bynnag, un rhagdybiaeth allweddol gydag atchweliad lluosnewidyn yw nad oes cydberthynas rhy agor rhwng newidynnau esboniadol. Mae cydberthynas rhy agos rhwng newidynnau rhagfynegol mewn model atchweliad yn gallu effeithio ar sefydlogrwydd amcangyfrifon y dadansoddiad atchweliad a'r modd y cânt eu dehongli. Felly, mae'r newidynnau sydd wedi'u cynnwys yn y model yn cael eu profi o safbwynt lluosgyflinelledd.

Gellir asesu lluosgyflinelledd uchel gan ddefnyddio'r ystadegyn ffactor chwyddiant amrywiant (VIF). Ceir cynghorion gwahanol o ran yr hyn sy'n gyfystyr â lluosgyflinelledd derbynol. Awgrymir yn gyffredinol, "os yw'r VIF mwyaf yn fwy na 10 yna mae achos i bryderu", "os yw'r VIF cyfartalog yn sylweddol fwy nag 1 yna gall yr atchweliad fod â thuedd" ac "mae goddefiant is na 0.1 yn dynodi problem ddifrifol" (Field, 2013, t.325)¹.

Caiff y VIF ei brofi yn gyntaf gyda'r holl newidynnau perthnasol wedi'u cynnwys. Mae'r newidynnau unigol sy'n methu â bodloni'r rhagdybiaethau uchod yn cael eu tynnu allan o'r model. Wedyn caiff y VIF ei brofi eto ar y model terfynol i ailwirio lluosgyflinelledd. Yn yr holl fodelau nid yw VIF y newidynnau unigol yn fwy na 10 ac nid yw'r VIF cymedrig yn fwy na 2.5, sy'n awgrymu nad oes achos i bryderu yn y modelau hyn.

Llwyddiant ffit

Mae llwyddiant ffit yn disgrifio pa mor dda y mae'r model yn gweddu i'r data y caiff ei greu ohono. Gellir ei ddefnyddio i asesu pa mor dda yw'r gyfatebiaeth rhwng y data y mae'r model yn ei ragfynegi a'r data sydd wedi cael ei gasglu. Gellir ei fesur gan ddefnyddio'r ystadegyn R^2 . Yr ystadegyn R^2 yw'r cyfernod penderfynu ar gyfer modelau atchweliad lluosog ac mae'n mesur pa mor dda y mae'r data'n cyd-fynd â'r model. Adroddir arno fel canran o'r amrywiant yn y canlyniad a eglurir gan y newidynnau sydd wedi'u cynnwys. Fel gydag unrhyw atchweliad sy'n defnyddio data arolwg, dim ond y newidynnau y mae gennym ddata ar eu cyfer y gallwn eu hystyried. Gallai cysylltiadau ddeillio o ryw ffactor sydd heb ei fesur, a gall

¹ Field, A. (2013). *Discovering statistics using IBM SPSS statistics*. Sage (Saesneg yn unig).

fod ffactorau pwysig sydd heb eu mesur hefyd ac sy'n syml ddim yn cael eu cynnwys yn y model. Felly, mewn ymchwiliad gwyddor gymdeithasol gall R^2 ymddangos yn isel, ond gall hyn fod oherwydd natur gymhleth y canlyniadau yr ymchwiliad iddynt: gall model â R^2 isel fod yn ddefnyddiol o hyd i ddeall y perthnasoedd rhwng newidynnau.

Wrth gyfrifo ystadegau R^2 , ni ellir pwysoli'r data. Mae'r ystadegyn R^2 (heb ei bwysoli) ar gyfer pob model wedi'i gynnwys yn yr atodiadau isod.

Effeithiau cydadweithiau

Gellir defnyddio cydadweithiau i brofi cydeffaith dau neu fwy o newidynnau rhagfynegol ar newidyn canlyniad. Mae'n ein galluogi i archwilio sut y mae'r perthnasoedd rhwng newidynnau dibynnol ac annibynnol yn amrywio yn ôl cyd-destun. Er enghraifft, wrth ymchwilio i benderfynyddion llesiant, roedd ymchwiliad flaenorol yn dangos bod effaith amodau economaidd-gymdeithasol ar lesiant yn wahanol rhwng dynion a menywod. Felly, cafodd cydadwaith rhwng amddifadedd aelwyd a rhywedd ei ychwanegu at y model. Canfu hyn fod llesiant benywod mewn aelwydydd amddifadus yn uwch na llesiant gwrywod yn ôl yr hyn yr oeddent yn ei ddweud; fodd bynnag mewn aelwydydd llai amddifadus roedd y gwrthwyneb yn wir. Mae bwrw golwg ar y cydadwaith hwn yn ei gwneud yn bosibl cael dealltwriaeth fanylach am y modd y mae newidynnau amrywiol yn cyd-adweithio i ddylanwadu ar y newidyn dibynnol.

Achosiaeth

Mewn dadansoddiad atchweliad, awgrymir perthynas achosol. Felly, rydym yn tybio mai newidiadau yn y newidyn dibynnol sy'n achosi newidiadau yn y newidynnau annibynnol. Er bod achosiaeth yn gymharol glir ar gyfer rhai newidynnau yn seiliedig ar wybodaeth flaenorol (e.e. nid yw amddifadedd sylweddol yn achosi newidiadau mewn rhywedd; mae rhywedd yn achosi newidiadau mewn amddifadedd sylweddol), ar gyfer eraill mae'r berthynas rhwng achos ac effaith yn fwy niwlog (gall bodlonrwydd isel ar fywyd achosi amddifadedd sylweddol; gall amddifadedd sylweddol achosi bodlonrwydd isel ar fywyd). Felly, lle nad yw gwybodaeth flaenorol yn gwneud cyfeiriad achosiaeth yn glir, mae'n bwysig nodi y gall achosiaeth weithio yn y naill gyfeiriad neu'r llall (neu'r ddau).

Pwysoli

Caiff canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol eu pwysoli er mwyn cymryd i ystyriaeth y tebygolrwydd o ddethol anghyfartal a hefyd diffyg ymateb gwahaniaethol (h.y. i sicrhau bod dosbarthiad oed a rhyw'r sampl a ymatebodd yn cydweddu â gweddill y boblogaeth yng Nghymru). Mae ein modelau atchweliad yn cymryd pwysladau i ystyriaeth. I gael manylion sy'n egluro sut y caiff y pwysladau eu cyfrifo, gweler Hanson, T. a Sullivan, S. (2015).

[Adroddiad Technegol ar Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15](#) (Saesneg yn unig).

Effeithiau ymylol

Cyflwynir y canlyniadau gan ddefnyddio effeithiau ymylol. Mae hyn yn wahanol i allbwn arferol dadansoddiadau atchweliad, sef cymarebau ods. Ods yw'r tebygolrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd wedi'i rannu â'r tebygolrwydd na fydd yn digwydd. Y gymhareb rhwng dwy set o ods yw cymarebau ods. Mae cymarebau ods braid yn haniaethol ac yn aml

gallant fod yn anodd i'w dehongli; yn wir, maent yn aml yn cael eu camddechongli². Felly, rydym yn troi'r cymarebau ods yn y model yn debygolrwydd rhagweledig (risgiau). Gan ddefnyddio'r rhain gallwn gyfrifo'r tebygolrwydd y bydd unigolyn mewn grŵp penodedig (e.e. benywod) yn bodloni'r meini prawf atchweliad (e.e. bod mewn amddifadedd sylweddol) a'i gymharu â'r tebygolrwydd ar gyfer unigolion nad ydynt yn y grŵp (e.e. gwrywod). Effaith ymylol yw'r enw ar hyn.

Effeithiau Ymylol Cyfartalog (AME) yw'r canlyniadau a gyflwynir. Byddai Effaith Ymylol Gyfartalog ar gyfer effaith amddifadedd sylweddol ar y tebygolrwydd o ddefnyddio'r rhyngwyd yn cael ei chyfrifo fel a ganlyn:

1. Creu model atchweliad logistaidd ar gyfer defnyddio'r rhyngwyd, gan gynnwys amddifadedd sylweddol fel un o'r rhagfynegyddion.
2. Dechrau gyda'r person cyntaf yn y set ddata.
3. Defnyddio'r model atchweliad i gyfrifo tebygolrwydd rhagweledig bod y person yma'n defnyddio'r rhyngwyd, gan ddefnyddio'i nodweddion i bennu'r gwerthoedd ar gyfer yr holl ffactorau yn y model ac eithrio amddifadedd sylweddol: defnyddio 'mewn amddifadedd sylweddol' fel gosodiad ar gyfer y ffactor hwn. Cofnodi'r tebygolrwydd rhagweledig a grëwyd gan y model ar gyfer y person hwnnw.
4. Ailadrodd ar gyfer yr holl bobl eraill yn y set ddata.
5. Cymryd cymedr pob tebygolrwydd rhagweledig a luniwyd ar gyfer yr holl bobl hyn. Y tebygolrwydd rhagweledig addasedig cyfartalog o ddefnyddio'r rhyngwyd pan fo rhywun yn byw mewn aelwyd amddifadus yw hon.
6. Ailadrodd camau 2 i 4 eto, ond y tro hwn defnyddio '**ddim** mewn amddifadedd sylweddol' fel y ffactor amddifadedd sylweddol ar gyfer pob person.
7. Cymryd cymedr pob tebygolrwydd rhagweledig a luniwyd ar gyfer yr holl bobl hyn. Y tebygolrwydd rhagweledig addasedig cyfartalog o ddefnyddio'r rhyngwyd pan **nad yw** rhywun yn byw mewn aelwyd amddifadus yw hon.
8. Y gwahaniaeth rhwng y ddau debygolrwydd rhagweledig cymedrig a gyfrifwyd yng nghamau 5 a 7 yw Effaith Ymylol Gyfartalog amddifadedd sylweddol ar ddefnyddio'r rhyngwyd.

I gael disgrifiad manylach o Effeithiau Ymylol Cyfartalog gweler Williams (2012)³.

Gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol

Mae rhywfaint o ansicrwydd yn gysylltiedig ag amcangyfrifon o'r Arolwg Cenedlaethol. Mae rhan o'r ansicrwydd yn deillio o'r ffaith y bydd unrhyw sampl o'r boblogaeth a ddewiswyd ar hap yn rhoi canlyniadau ychydig yn wahanol i'r canlyniadau a geid pe bai'r boblogaeth gyfan wedi'i chynnwys yn yr arolwg. Gwall samplu yw'r enw ar hyn. Gellir defnyddio cyfyngau hyder fel canllaw ar gyfer maint y gwall samplu. Caiff y cyfyngau hyn eu cyfrifo ar sail amcangyfrif ar gyfer yr arolwg ac maent yn rhoi ystod y mae'r gwir werth yn debygol o fod oddi mewn iddi. Mewn 95% o samplau'r arolwg, bydd y cyfwng hyder o 95% yn cynnwys y 'gwir' ffigwr ar gyfer y boblogaeth gyfan (hynny yw, y ffigwr y byddem yn ei gael pe bai'r arolwg yn cynnwys y boblogaeth gyfan).

² Gweler <http://www.bmj.com/content/316/7136/989> (Saesneg yn unig) am drafodaeth fer am y materion.

³ Williams, Richard. 2012. "Using the margins command to estimate and interpret adjusted predictions and marginal effects." The Stata Journal 12(2):308-331 [Ar gael yn: <http://www.stata-journal.com/article.html?article=st0260> (Saesneg yn unig)]

Fel gydag unrhyw arolwg, gallai ystod o wallau eraill godi yn yr Arolwg Cenedlaethol hefyd: er enghraifft, oherwydd diffyg ymateb; am nad yw ymatebwyr o bosibl yn dehongli'r cwestiynau fel y bwriadwyd neu'n eu hateb yn gywir; ac oherwydd y gallai gwallau gael eu cyflwyno wrth i ddata'r arolwg gael ei brosesu.

Lle mae testun ein hadroddiadau'n nodi gwahaniaeth rhwng dau grŵp, rydym wedi gwirio i sicrhau nad yw'r cyfyngau hyder ar gyfer y ddau grŵp yn gorgyffwrdd. Mae hyn yn awgrymu bod y gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol (ond fel y nodwyd uchod, nid yw mor drylwyr â chynnal prawf ystadegol ffurfiol), h.y. bod tebygolrwydd o lai na 5% (1 mewn 20) o gael y canlyniadau hyn os nad oes gwahaniaeth rhwng yr un ddau grŵp yn y boblogaeth ehangach.

Atodiad: Esboniadau a thablau ystadegol

Adran A – Rhagfynegiadau allweddol o ddangosyddion Cenedlaethau'r Dyfodol	7
Pa aelwydydd sydd fwyaf tebygol o fod mewn amddifadedd sylweddol? (Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 19).....	7
Pwy sydd fwyaf tebygol o fod yn fodlon ar eu swydd? (Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 20)	9
Pwy sydd fwyaf tebygol o deimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau syn effeithio ar eu hardal leol? (Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 23).....	11
Pwy sydd fwyaf tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol? (Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 25) ...	13
Pwy sydd fwyaf tebygol o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned? (Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 27)...	16
Pwy sydd fwyaf tebygol o fod yn 'siarad Cymraeg' ac o 'siarad Cymraeg yn feunyddiol a siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg'? (Dangosyddion Cenedlaethau'r Dyfodol 36 a 37).....	18
<i>'Yn siarad Cymraeg yn feunyddiol ac yn siarad mwy nag ychydig eiriau'</i>	18
<i>'Gallu Siarad Cymraeg'</i>	20
<i>Nodweddion y rhai sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg ond nad ydynt yn ei siarad yn feunyddiol</i>	23
 Adran B – Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014-15: Bwletinau.....	25
Llety a mesurau arbed ynni	25
Gofal plant.....	26
Cymorth Rhieni gyda Llythrennedd a Rhifedd	27
Lles anifeiliaid anwes	32
Diogelwch plant ar-lein	34
 Adran C – Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014-15: Cwisiau.....	35
Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Pwy sy'n fwy tebygol o deimlo'n bryderus?.....	35
Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Pwy sy'n fwy tebygol o fod yn fodlon â bywyd?	39
Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Pwy sy'n fwy tebygol o feddwl fod gofal cymdeithasol yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel?	43
Lles ac arian: Pwy sy'n fwy tebygol o fod yn amddifadus?.....	44
Rhyngrwyd a'r cyfryngau: Pwy sy'n fwy tebygol o ddefnyddio'r rhyngrwyd?	45
Teithio llesol: Pwy sy'n fwy tebygol o deimlo'n anniogel ar drafnidiaeth gyhoeddus?.....	46
Ardal leol a'r amgylchedd: Pwy sy'n fwy tebygol o ddweud fod eu cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel?	47

Adran A – Rhagfynegiadau allweddol o ddangosyddion Cenedlaethau'r Dyfodol

Pa aelwydydd sydd fwyaf tebygol o fod mewn amddifadedd sylweddol? (Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 19)

Rhestr gychwynnol o newidynnau a gafodd eu hystyried

Rhywedd; oedran; statws priodasol; deiliadaeth; ardal drefol / wledig; ardal awdurdod lleol; statws economaidd; bodlonrwydd ar fywyd; anabledd neu afiechyd hirdymor cyfyngol; wedi cysylltu â'r cynghorydd lleol; ffrindiau agos; plant yn yr aelwyd; gorbryder ddoe; hapusrwydd ddoe; gwlad enedigol; hunaniaeth genedlaethol; ethnigrwydd; cyfeiriadedd rhywiol; crefydd; rhyngrwyd yn yr aelwyd; siaradwr Cymraeg.

Newidynnau a dynnwyd allan fel rhai nad oeddent yn rhagfynegyddion arwyddocaol ar eu pennau eu hunain

Hunaniaeth genedlaethol ac wedi cysylltu â'r cynghorydd lleol.

Newidynnau a dynnwyd allan oherwydd lluosgyflinelledd

Ffrindiau a theulu agos; hapusrwydd ddoe; a siaradwr Cymraeg.

Newidynnau a dynnwyd allan fel rhai nad oeddent yn rhagfynegyddion arwyddocaol fel rhan o fodel atchweliad

Ardal drefol neu wledig; gwlad enedigol; ardal awdurdod lleol; cyfeiriadedd rhywiol; crefydd; ac ethnigrwydd

Y model terfynol

Ffactor	Categoriâu	Cymhareb Ods	Gwall safonol	z	P>z	Cyfwng hyder o 95%	
						Isaf	Uchaf
Rhywedd	Gwrywod (cyf)						
	Benywod	1.522725	0.120592	5.31	0	1.303799	1.778411
Plant yn yr aelwyd	Dim Plant (cyf)						
	Plant yn yr aelwyd	1.771862	0.16956	5.98	0	1.468836	2.137404
Statws Priodasol	Sengl (cyf)						
	Priod	0.9347157	0.094343	-0.67	0.504	0.766949	1.139181
	Wedi ysgaru neu wahanu	2.135189	0.256267	6.32	0	1.687619	2.701458
	Gweddwr	0.9566051	0.167407	-0.25	0.8	0.678846	1.348013
Oedran	70+ (cyf)						
	16 i 29	6.048786	1.298715	8.38	0	3.971088	9.213548
	30 i 39	8.783632	1.775745	10.75	0	5.910044	13.05442
	40 i 49	7.011519	1.311896	10.41	0	4.859005	10.11758
	50 i 59	5.4534	0.941883	9.82	0	3.887337	7.65037
	60 i 69	2.422448	0.385557	5.56	0	1.773279	3.309266

Ffactor	Categoriâu	Cymhareb Ods	Gwall safonol	z	P>z	Cyfwng hyder o 95%	
						Isaf	Uchaf
Deiliadaeth	Yn eiddo i berchen-feddianwyr (cyf)						
	Tai cymdeithasol	4.061908	0.390811	14.57	0	3.363821	4.904867
	Tai rhent preifat	2.741428	0.287879	9.6	0	2.231472	3.367923
Statws cyflogaeth	Cyflogedig (cyf)						
	Di-waith	1.978074	0.318596	4.24	0	1.442597	2.712314
	Economaidd anweithgar	1.281494	0.128209	2.48	0.013	1.053311	1.559108
Bodlonrwydd ar fywyd ar y cyfan	Canolig neu uchel (cyf)						
	Isel iawn neu isel	2.553715	0.244872	9.78	0	2.116177	3.081719
Anabledd neu afiechyd hirdymor cyfyngol	Nac oes (cyf)						
	Oes	1.289341	0.138402	2.37	0.018	1.044714	1.59125
Gorbryder ddoe	Gorbryder ddoe (cyfwng)	1.07662	0.014085	5.64	0	1.049365	1.104583
Rhyngrwyd yn yr aelwyd	Oes (cyf)						
	Nac oes	1.676327	0.1881	4.6	0	1.345382	2.088679
Lefel cymwysterau	Lefel 4+ (cyf)						
	Lefel 3 ar y FfCC	1.65555	0.197147	4.23	0	1.310928	2.090767
	Lefel 2 ar y FfCC	1.929029	0.211657	5.99	0	1.555762	2.391852
	Islaw Lefel 2 ar y FfCC	2.343882	0.319243	6.25	0	1.794732	3.06106
	Dim cymwysterau	2.543101	0.321211	7.39	0	1.985413	3.257439
Iechyd cyffredinol	Da (cyf)						
	Gweddol	1.766616	0.195249	5.15	0	1.422545	2.193907
	Gwael	1.81183	0.262571	4.1	0	1.363833	2.406988
	Cysonyn	0.0033811	0.000727	-26.48	0	0.002219	0.005152

Ystadegau heb eu pwysoli

Nifer yr arsylwadau = 13,050
 LR chi2(24) = 3192.55
 Tebygolrwydd > chi2 = 0.0000
 Tebygolrwydd log = -4398.0089
 Ffug-R2 = 0.2663

Pwy sydd fwyaf tebygol o fod yn fodlon ar eu swydd? (Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 20)

Rhestr gychwynnol o newidynnau a gafodd eu hystyried

Rhywedd; y cymhwyster uchaf; anabledd; ardal drefol/ wledig; ardal awdurdod lleol; deiliadaeth; gwlad enedigol; hunaniaeth genedlaethol; ethnigrwydd; cyfeiriadedd rhywiol; rhyngrwyd yn yr aelwyd; plant yn yr aelwyd; oedran; siarad Cymraeg; statws priodasol; crefydd; bodlonrwydd ar fywyd ar y cyfan; bodlonrwydd ar berthnasoedd personol ar y cyfan; bodlonrwydd ar eu sefyllfa ariannol; bodlonrwydd ar yr amser cymudo; bodlonrwydd ar amser i wneud y pethau yr ydych yn eu mwynhau; nifer y bobl a gyflogir yn y sefydliad; cyfrifoldebau ffurfiol am eraill, a'r gallu i dalu biliau.

Newidynnau a dynnwyd allan fel rhai nad oeddent yn rhagfynegyddion arwyddocaol ar eu pennau eu hunain

Gwlad enedigol; hunaniaeth genedlaethol; ethnigrwydd; cyfeiriadedd rhywiol, a nifer y bobl a gyflogir.

Newidynnau a dynnwyd allan oherwydd lluosgyflinelledd

Bodlonrwydd ar berthnasoedd personol ar y cyfan.

Newidynnau a dynnwyd allan fel rhai nad oeddent yn rhagfynegyddion arwyddocaol fel rhan o fodel atchweliad

Crefydd; rhyngrwyd; anabledd; rhywedd; y cymhwyster uchaf; siaradwr Cymraeg; plant yn yr aelwyd; y gallu i dalu biliau; statws priodasol; ardal drefol/ wledig, a deiliadaeth.

Y model terfynol

Ffactor	Categoriâu	Cymhareb Ods	Gwall Safonol	z	P>z	Cyfwng hyder o 95%	
Ardal awdurdod lleol	Ynys Môn (cyf)						
	Gwynedd	1.240551	0.431884	0.62	0.536	0.6270159	2.454432
	Conwy	0.5786558	0.186984	-1.69	0.09	0.3071616	1.090119
	Sir Ddinbych	0.6701499	0.230913	-1.16	0.245	0.3410942	1.316648
	Sir y Fflint	0.6516071	0.214188	-1.3	0.193	0.3421288	1.241029
	Wrecsam	0.8939109	0.289016	-0.35	0.729	0.4743374	1.684617
	Powys	1.592966	0.584263	1.27	0.204	0.7762569	3.268943
	Ceredigion	0.7511906	0.254565	-0.84	0.399	0.386628	1.45951
	Sir Benfro	1.50972	0.539034	1.15	0.249	0.749862	3.039567
	Sir Gaerfyrddin	0.9812007	0.360801	-0.05	0.959	0.4772646	2.017235
	Abertawe	1.024363	0.363843	0.07	0.946	0.5106412	2.054906
	Castell-nedd Port Talbot	1.283074	0.546928	0.58	0.559	0.5564367	2.958611
	Pen-y-bont ar Ogwr	0.7005798	0.236472	-1.05	0.292	0.361531	1.357593
	Bro Morgannwg	0.8302337	0.291682	-0.53	0.596	0.417015	1.652909

Ffactor	Categoriâu	Cymhareb Ods	Gwall Safonol	z	P>z	Cyfwng hyder o 95%	
	Caerdydd	0.7357872	0.254556	-0.89	0.375	0.37348	1.449563
	Rhondda Cynon Taf	0.6306244	0.209761	-1.39	0.166	0.3285795	1.210323
	Merthyr Tudful	0.7616869	0.259469	-0.8	0.424	0.3906738	1.485042
	Caerffili	0.7868913	0.25609	-0.74	0.461	0.4158108	1.489134
	Blaenau Gwent	0.9832969	0.362302	-0.05	0.964	0.4775884	2.02449
	Torfaen	0.7599905	0.252391	-0.83	0.409	0.3963931	1.457103
	Sir Fynwy	0.8523563	0.299513	-0.45	0.649	0.4280688	1.697184
	Casnewydd	0.5483142	0.181553	-1.81	0.07	0.2865408	1.049234
Oedran	16 i 29 (cyf)						
	30 i 39	1.432288	0.235403	2.19	0.029	1.037843	1.976647
	40 i 49	0.9036355	0.134245	-0.68	0.495	0.6753642	1.209062
	50 i 59	0.8275615	0.126936	-1.23	0.217	0.6126867	1.117795
	60 a throsodd	1.736426	0.369045	2.6	0.009	1.144852	2.633681
Bodlonrwydd ar fywyd ar y cyfan	Isel iawn neu isel (cyf)						
	Canolig neu uchel	2.744522	0.358619	7.73	0	2.124431	3.545608
Bodlonrwydd ar eu sefyllfa ariannol	Ddim yn fodlon (cyf)						
	Bodlon iawn (6-10)	1.52224	0.187203	3.42	0.001	1.196199	1.937148
Bodlonrwydd ar yr amser cymudo	Ddim yn fodlon (cyf)						
	Bodlon iawn (6-10)	2.49227	0.295009	7.71	0	1.976236	3.14305
Bodlonrwydd ar eu hamser sbâr	Ddim yn fodlon (cyf)						
	Bodlon iawn (6-10)	1.507479	0.159442	3.88	0	1.225243	1.854729
Cyfrifoldebau ffurfiol am eraill	Oes						
	Nac oes	0.6432105	0.06726	-4.22	0	0.5240154	0.789518
	Cysonyn	1.022867	0.340165	0.07	0.946	0.53302	1.962887

Ystadegau heb eu pwysoli

Nifer yr arsylwadau = 5,643
 LR chi2(30) = 630.62
 Tebygolrwydd > chi2 = 0.0000
 Tebygolrwydd log = -2202.1082
 Ffug-R2 = 0.1253

Pwy sydd fwyaf tebygol o deimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau syn effeithio ar eu hardal leol? (Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 23)

Rhestr gychwynnol o newidynnau a gafodd eu hystyried

Rhywedd; ethnigrwydd; oedran; statws priodasol; deiliadaeth; ardal drefol/ wledig; ardal awdurdod lleol; statws economaidd; bodlonrwydd ar fywyd ar y cyfan; anabledd; ffrindiau a theulu agos; plant yn yr aelwyd; gwlad enedigol; crefydd; cyfeiriadedd rhywiol; rhynggrwyd yn yr aelwyd; siaradwr Cymraeg; y cymhwyster uchaf; iechyd cyffredinol; teimlo eu bod yn rheoli eu bywyd; teimlo eu bod yn cael eu parchu; teimlo'n ddiogel; hunaniaeth genedlaethol; amddifadedd sylweddol

Newidynnau a dynnwyd allan fel rhai nad oeddent yn rhagfynegyddion arwyddocaol ar eu pennau eu hunain

Ethnigrwydd; deiliadaeth; statws economaidd; plant yn yr aelwyd; cyfeiriadedd rhywiol, a siarad Cymraeg.

Newidynnau a dynnwyd allan oherwydd lluosgyflinelledd

Ffrindiau neu deulu agos.

Newidynnau a dynnwyd allan fel rhai nad oeddent yn rhagfynegyddion arwyddocaol fel rhan o fodel atchweliad

Ardal drefol/ wledig; amddifadedd sylweddol; gwlad enedigol; crefydd; statws priodasol; anabledd; teimlo'n ddiogel; bodlonrwydd ar fywyd; oedran; hunaniaeth genedlaethol; rhywedd, a'r rhynggrwyd.

Y model terfynol

Ffactor	Categoriâu	Cymhareb Ods	Gwall Safonol	z	P>z	Cyfwng Hyder o 95%	
Ardal Awdurdod Lleol	Ynys Môn (cyf)						
	Gwynedd	0.6607714	0.121304	-2.26	0.024	0.4610927	0.946922
	Conwy	0.8887343	0.162966	-0.64	0.52	0.6204236	1.27308
	Sir Ddinbych	0.589969	0.11184	-2.78	0.005	0.4068815	0.855442
	Sir y Fflint	0.6741831	0.122639	-2.17	0.03	0.4719962	0.96298
	Wrecsam	0.5718809	0.106443	-3	0.003	0.3970754	0.823641
	Powys	0.726539	0.142213	-1.63	0.103	0.4950448	1.066285
	Ceredigion	0.5327463	0.097444	-3.44	0.001	0.3722439	0.762453
	Sir Benfro	0.4636574	0.090652	-3.93	0	0.3160632	0.680175
	Sir Gaerfyrddin	0.6952079	0.125898	-2.01	0.045	0.4874915	0.991431
	Abertawe	0.9466198	0.176934	-0.29	0.769	0.6562606	1.365447
	Castell-nedd Port Talbot	0.8375405	0.151134	-0.98	0.326	0.5880405	1.192901
	Pen-y-bont ar Ogwr	0.6282462	0.111605	-2.62	0.009	0.4435243	0.889902
	Bro Morgannwg	0.6675296	0.127065	-2.12	0.034	0.4596671	0.969388
	Caerdydd	0.7560295	0.144684	-1.46	0.144	0.5195665	1.10011

Ffactor	Categoriâu	Cymhareb Ods	Gwall Safonol	z	P>z	Cyfwng Hyder o 95%	
	Rhondda Cynon Taf	0.6817235	0.125106	-2.09	0.037	0.4757742	0.976823
	Merthyr Tudful	0.7675641	0.133206	-1.52	0.127	0.5462532	1.078538
	Caerffili	0.9487517	0.176439	-0.28	0.777	0.658954	1.365998
	Blaenau Gwent	0.5071594	0.105172	-3.27	0.001	0.3377741	0.761487
	Torfaen	0.7333144	0.130035	-1.75	0.08	0.5180253	1.038077
	Sir Fynwy	0.7162861	0.128556	-1.86	0.063	0.5038672	1.018256
	Casnewydd	0.6321167	0.118623	-2.44	0.015	0.4375831	0.913133
Y cymhwyster uchaf	Lefel 4+ (cyf)						
	Lefel 3 ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol	0.6744618	0.072446	-3.67	0	0.5464216	0.832505
	Lefel 2 ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol	0.775572	0.070782	-2.78	0.005	0.6485416	0.927484
	Islaw Lefel 2 ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol	0.6876097	0.092259	-2.79	0.005	0.5286069	0.89444
	Dim cymwysterau	0.6262943	0.064036	-4.58	0	0.5125621	0.765263
Iechyd cyffredinol	Da (cyf)						
	Gweddol	0.8192807	0.071896	-2.27	0.023	0.6898204	0.973037
	Gwael	0.7946761	0.093272	-1.96	0.05	0.63137	1.000222
Teimlo eu bod yn rheoli eu bywyd	Cytuno (cyf)						
	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	0.5506281	0.103711	-3.17	0.002	0.3806575	0.796494
	Anghytuno	0.5453333	0.112416	-2.94	0.003	0.3640776	0.816827
Teimlo eu bod yn cael eu parchu	Cytuno (cyf)						
	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	0.5960928	0.083289	-3.7	0	0.4532936	0.783878
	Anghytuno	0.4906757	0.116651	-2.99	0.003	0.3079172	0.781907
	Cysonyn	0.5101509	0.064761	-5.3	0	0.3977806	0.654265

Ystadegau heb eu pwysoli

Nifer yr arsylwadau = 10,135
 LR chi2(31) = 206.46
 Tebygolrwydd > chi2 = 0.0000
 Tebygolrwydd log = -4993.2006
 Ffug-R2 = 0.0203

Pwy sydd fwyaf tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol? (Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 25)

Rhestr gychwynnol o newidynnau a gafodd eu hystyried

Rhywedd; y cymhwyster uchaf; statws economaidd; anabledd neu afiechyd hirdymor cyfyngol; ardal drefol/ wledig; ardal awdurdod lleol; deiliadaeth; gwlad enedigol; ethnigrwydd; cyfeiriadedd rhywiol; rhyngrwyd yn yr aelwyd; plant yn yr aelwyd; oedran; statws priodasol; crefydd; bodlonrwydd ar fywyd ar y cyfan; bodlonrwydd ar berthnasoedd personol ar y cyfan; iechyd cyffredinol; y gallu i dalu biliau; sgôr diogelwch cymunedol ar y cyfan; dim graffiti yn yr ardal; teimlo eich bod yn perthyn; ac wedi profi gwahaniaethu.

Newidynnau a dynnwyd allan fel rhai nad oeddent yn rhagfynegyddion arwyddocaol ar eu pennau eu hunain

Ethnigrwydd a phlant yn yr aelwyd.

Newidynnau a dynnwyd allan oherwydd lluosgyflinelledd

Bodlonrwydd ar berthnasoedd personol ar y cyfan ac wedi profi gwahaniaethu

Newidynnau a dynnwyd allan fel rhai nad oeddent yn rhagfynegyddion arwyddocaol fel rhan o fodel atchweliad

Deiliadaeth; statws economaidd; rhyngrwyd; y gallu i dalu biliau; gwlad enedigol; a statws priodasol.

Y model terfynol

Ffactor	Categoriâu	Cymhareb Ods	Gwall Safonol	z	P>z	Cyfwng Hyder o 95%	
Rhywedd	Gwrywod (cyf)						
	Benywod	0.2143438	0.014505	-22.76	0	0.1877197	0.244744
Y cymhwyster uchaf	Lefel 4+ (cyf)						
	Lefel 3 ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol	0.8021856	0.079463	-2.23	0.026	0.6606269	0.974078
	Lefel 2 ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol	0.9070521	0.082411	-1.07	0.283	0.7590933	1.08385
	Islaw Lefel 2 ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol	0.7692519	0.088764	-2.27	0.023	0.6135472	0.964471
	Dim cymwysterau	0.7006886	0.065515	-3.8	0	0.5833598	0.841615
Anabledd neu afiechyd hirdymor	Oes (cyf)						
	Nac oes	1.401204	0.123461	3.83	0	1.178966	1.665334

Ffactor	Categoriâu	Cymhareb Ods	Gwall Safonol	z	P>z	Cyfwng Hyder o 95%	
cyfyngol							
Ardal Drefol neu Wledig	Ardal Drefol (cyf)						
	Ardal Wledig	1.260663	0.125408	2.33	0.02	1.037345	1.532057
Ardal awdurdod lleol	Ynys Môn (cyf)						
	Gwynedd	2.108194	0.42212	3.72	0	1.423889	3.121368
	Conwy	0.9972761	0.212459	-0.01	0.99	0.6568655	1.514099
	Sir Ddinbych	0.923776	0.179504	-0.41	0.683	0.6311973	1.351974
	Sir y Fflint	0.8918565	0.169199	-0.6	0.546	0.6149067	1.293543
	Wrecsam	0.9145525	0.176677	-0.46	0.644	0.6262828	1.335509
	Powys	1.515637	0.329699	1.91	0.056	0.9895367	2.321445
	Ceredigion	2.969183	0.633095	5.1	0	1.95498	4.509535
	Sir Benfro	3.791915	0.869502	5.81	0	2.419216	5.943504
	Sir Gaerfyrddin	1.430892	0.288741	1.78	0.076	0.9634798	2.125061
	Abertawe	0.8646138	0.177463	-0.71	0.478	0.5782458	1.292802
	Castell-nedd Port Talbot	1.001313	0.20134	0.01	0.995	0.6751715	1.484997
	Pen-y-bont ar Ogwr	1.090915	0.223219	0.43	0.671	0.7305026	1.629147
	Bro Morgannwg	1.071786	0.218723	0.34	0.734	0.7184567	1.598879
	Caerdydd	0.9159117	0.185795	-0.43	0.665	0.6154399	1.363081
	Rhondda Cynon Taf	1.203529	0.250204	0.89	0.373	0.800754	1.808899
	Merthyr Tudful	0.9825896	0.19757	-0.09	0.93	0.6625529	1.457215
	Caerffili	1.295644	0.262157	1.28	0.201	0.8714767	1.926264
	Blaenau Gwent	1.178068	0.241289	0.8	0.424	0.7885502	1.759994
	Torfaen	0.7242889	0.148438	-1.57	0.116	0.4846902	1.082329
	Sir Fynwy	1.102983	0.222799	0.49	0.628	0.7423839	1.638735
	Casnewydd	0.8808489	0.173124	-0.65	0.519	0.5992452	1.294787
Oedran	16 i 29 (cyf)						
	30 i 39	1.055601	0.120596	0.47	0.636	0.8438307	1.320517
	40 i 49	1.128477	0.12374	1.1	0.27	0.9102419	1.399035
	50 i 59	1.092196	0.125225	0.77	0.442	0.8723828	1.367396
	60 i 69	1.048881	0.117485	0.43	0.67	0.8421388	1.306378
	70 a throsodd	0.639099	0.075316	-3.8	0	0.5072898	0.805156
Crefydd	Dim Crefydd (cyf)						
	Cristion	0.7330906	0.052036	-4.37	0	0.6378782	0.842515
	Crefydd Arall	0.8119738	0.204819	-0.83	0.409	0.4952539	1.331239
Bodlonrwyd d ar fywyd ar y cyfan	Isel neu isel iawn (cyf)						
	Canolig neu uchel	1.579287	0.127994	5.64	0	1.347333	1.851174
Iechyd cyffredinol	Da						
	Gweddol	0.6756169	0.0598	-4.43	0	0.5680139	0.803604
	Gwael	0.5774442	0.074718	-4.24	0	0.4480951	0.744132
Sgôr diogelwch	1- lleiaf diogel (cyf)						
	2	1.167925	0.115894	1.56	0.118	0.9615011	1.418665

Ffactor	Categoriâu	Cymhareb Ods	Gwall Safonol	z	P>z	Cyfwng Hyder o 95%	
cymunedol ar y cyfan	3	1.303945	0.128749	2.69	0.007	1.074516	1.582361
	4	1.503861	0.157291	3.9	0	1.225121	1.846019
	5- mwyaf diogel	1.754931	0.199463	4.95	0	1.404475	2.192836
Graffiti a fandaliaeth yn yr ardal	Cytuno						
	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	0.613226	0.073337	-4.09	0	0.4850911	0.775207
	Anghytuno	0.4035076	0.037513	-9.76	0	0.3362931	0.484156
"Rwy'n teimlo fel pe bawb i'n perthyn"	Cytuno						
	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	0.6954546	0.075518	-3.34	0.001	0.5621318	0.860398
	Anghytuno	0.4059223	0.054088	-6.77	0	0.3126248	0.527063
	Cysonyn	4.581864	1.069054	6.52	0	2.900262	7.238476

Ystadegau heb eu pwysoli

Nifer yr arsylwadau = 11,250
 LR chi2(46) = 2543.54
 Tebygolrwydd > chi2 = 0.0000
 Tebygolrwydd log = -5796.2517
 Ffug-R2 = 0.1799

Pwy sydd fwyaf tebygol o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned? (Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 27)

Rhestr gychwynnol o newidynnau a gafodd eu hystyried

Rhywedd; y cymhwyster uchaf; statws economaidd; anabledd; ardal drefol/ wledig; ardal awdurdod lleol; deiliadaeth; gwlad enedigol; hunaniaeth genedlaethol; ethnigrwydd; cyfeiriadedd rhywiol; rhyngrwyd yn yr aelwyd; plant yn yr aelwyd; oedran; siarad Cymraeg; statws priodasol; crefydd; bodlonrwydd ar fywyd ar y cyfan, a bodlonrwydd ar berthnasoedd personol ar y cyfan.

Newidynnau a dynnwyd allan fel rhai nad oeddent yn rhagfynegyddion arwyddocaol ar eu pennau eu hunain

Rhywedd; gwlad enedigol; hunaniaeth genedlaethol, ac ethnigrwydd.

Newidynnau a dynnwyd allan oherwydd lluosgyflinelledd

Bodlonrwydd ar berthnasoedd personol ar y cyfan.

Newidynnau a dynnwyd allan fel rhai nad oeddent yn rhagfynegyddion arwyddocaol fel rhan o fodel atchweliad

Statws economaidd; statws priodasol; plant yn yr aelwyd; rhyngrwyd yn yr aelwyd; y cymhwyster uchaf, a chyfeiriadedd rhywiol.

Y model terfynol

Ffactor	Categoriâu	Cymhareb Ods	Gwall Safonol	z	P>z	Cyfwng Hyder o 95%	
Anabledd	Anabledd (cyf)						
	Dim anabledd	1.180383	0.071751	2.73	0.006	1.047808	1.329734
Ardal Drefol/ Wledig	Ardal Drefol (cyf)						
	Ardal Wledig	1.497831	0.114186	5.3	0	1.289948	1.739216
Ardal Awdurdod Lleol	Ynys Môn (Cyf)						
	Gwynedd	1.062417	0.168304	0.38	0.702	0.7788443	1.449236
	Conwy	0.8376418	0.139073	-1.07	0.286	0.6049709	1.159797
	Sir Ddinbych	0.8292585	0.133182	-1.17	0.244	0.6053182	1.136047
	Sir y Fflint	0.7404365	0.113715	-1.96	0.05	0.5479758	1.000493
	Wrecsam	0.6664381	0.103178	-2.62	0.009	0.4920138	0.902698
	Powys	0.9863838	0.159628	-0.08	0.932	0.718282	1.354556
	Ceredigion	1.270165	0.201896	1.5	0.132	0.9301638	1.734445
	Sir Benfro	1.910872	0.321541	3.85	0	1.374044	2.657435
	Sir Gaerfyrddin	0.7133508	0.107959	-2.23	0.026	0.530252	0.959675
	Abertawe	0.9346995	0.157532	-0.4	0.689	0.6717574	1.300564
	Castell-nedd Port Talbot	0.716655	0.117006	-2.04	0.041	0.5204003	0.986922
	Pen-y-bont ar Ogwr	0.6338793	0.103471	-2.79	0.005	0.4603211	0.872876
	Bro Morgannwg	0.9487716	0.156894	-0.32	0.75	0.6861232	1.311962

Ffactor	Categoriâu	Cymhareb Ods	Gwall Safonol	z	P>z	Cyfwng Hyder o 95%	
	Caerdydd	0.7348736	0.123333	-1.84	0.066	0.5288795	1.021101
	Rhondda Cynon Taf	0.5909395	0.09318	-3.34	0.001	0.4338348	0.804937
	Merthyr Tudful	0.6792369	0.108693	-2.42	0.016	0.4963748	0.929465
	Caerffili	1.136259	0.186818	0.78	0.437	0.8232408	1.568295
	Blaenau Gwent	1.032598	0.168676	0.2	0.844	0.7496982	1.42225
	Torfaen	0.9386488	0.158875	-0.37	0.708	0.6736422	1.307907
	Sir Fynwy	0.9185687	0.145856	-0.53	0.593	0.6729035	1.253922
	Casnewydd	0.9228196	0.153842	-0.48	0.63	0.6656008	1.27944
Deiliadaeth	Yn eiddo i berchen-feddianwyr (cyf)						
	Tai cymdeithasol	0.8009679	0.0572966	-3.1	0.002	0.6961857	0.9215209
	Tai rhent preifat	0.813404	0.0644838	-2.61	0.009	0.6963475	0.9501377
Oedran	16 i 29 (cyf)						
	30 i 39	1.212762	0.11015	2.12	0.034	1.014997	1.44906
	40 i 49	1.518746	0.137107	4.63	0	1.272453	1.812711
	50 i 59	1.580834	0.147562	4.91	0	1.316531	1.898197
	60 i 69	1.84816	0.170941	6.64	0	1.541735	2.215487
	70 a throsodd	3.052326	0.298715	11.4	0	2.519582	3.697715
Siaradwr Cymraeg	Nac ydw (cyf)						
	Ydw	1.183924	0.085325	2.34	0.019	1.027965	1.363545
Crefydd	Dim crefydd						
	Cristion	1.109742	0.06177	1.87	0.061	0.9950451	1.23766
	Crefydd arall	1.49231	0.291874	2.05	0.041	1.01713	2.189482
Bodlonrwydd ar fywyd ar y cyfan	Isel iawn neu isel						
	Canolig neu uchel	1.901274	0.117908	10.36	0	1.683672	2.147
	Cysonyn	0.6056955	0.102004	-2.98	0.003	0.4354168	0.842565

Ystadegau heb eu pwysoli

Nifer yr arsylwadau = 14,322
 LR chi2(34) = 1158.90
 Tebygolrwydd > chi2 = 0.0000
 Tebygolrwydd log = -8680.3984
 Ffug-R2 = 0.0626

Pwy sydd fwyaf tebygol o fod yn ‘siarad Cymraeg’ ac o ‘siarad Cymraeg yn feunyddiol a siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg’? (Dangosyddion Cenedlaethau'r Dyfodol 36 a 37)

‘Yn siarad Cymraeg yn feunyddiol ac yn siarad mwy nag ychydig eiriau’

Rhestr gychwynnol o newidynnau a gafodd eu hystyried

Rhywedd; statws priodasol; oedran; deiliadaeth; ardal drefol/wledig; ardal awdurdod lleol; statws economaidd; bodlonrwydd ar fywyd ar y cyfan; anabledd neu afiechyd hirdymor cyfyngol; teulu neu ffrindiau agos; plant yn yr aelwyd; gorbryder ddoe; hapusrwydd ddoe; crefydd; cyfeiriadedd rhywiol; rhyngrwyd yn yr aelwyd; amddifadedd sylweddol; y cymhwyster uchaf; teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi; teimlo eu bod yn cael eu parchu; wedi cysylltu â'r cynghorydd lleol a theimlo eu bod yn perthyn.

Newidynnau a dynnwyd allan fel rhai nad oeddent yn rhagfynegyddion arwyddocaol ar eu pennau eu hunain

Gorbryder ddoe; cyfeiriadedd rhywiol a theimlo eu bod yn perthyn.

Newidynnau a dynnwyd allan oherwydd lluosgyflinelledd

Bodlonrwydd ar fywyd ar y cyfan.

Newidynnau a dynnwyd allan fel rhai nad oeddent yn rhagfynegyddion arwyddocaol fel rhan o fodel atchweliad

Teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi; teimlo eu bod yn cael eu parchu; wedi cysylltu â'r cynghorydd lleol; plant yn yr aelwyd; statws priodasol; anabledd neu afiechyd hirdymor cyfyngol; amddifadedd sylweddol.

Y model terfynol

Ffactor	Categoriâu	Cymhareb Ods	Gwall Safonol	z	P>z	Cyfwng hyder o 95%	
						Isaf	Uchaf
Rhywedd	Gwrywod (cyf)						
	Benywod	1.24596	0.107404	2.55	0.011	1.052275	1.475296
Oedran	16 i 29 (cyf)						
	30 i 39	0.6783562	0.113027	-2.33	0.02	0.4893635	0.940338
	40 i 49	0.6139291	0.101841	-2.94	0.003	0.4435248	0.849803
	50 i 59	0.4999592	0.085629	-4.05	0	0.3573938	0.699394
	60 i 69	0.4340083	0.079398	-4.56	0	0.3032343	0.62118
	70 a throsodd	0.6005783	0.117435	-2.61	0.009	0.4093814	0.881072
Deiliadaeth	Yn eiddo i berchen-feddianwyr (cyf)						
	Tai cymdeithasol	0.7389488	0.09392	-2.38	0.017	0.5760067	0.947984
	Tai rhent preifat	0.4963751	0.071801	-4.84	0	0.3738373	0.659079
Ardal	Ardal Drefol (cyf)						

Ffactor	Categoriâu	Cymhareb Ods	Gwall Safonol	z	P>z	Cyfwng hyder o 95%	
						Isaf	Uchaf
	Ardal Wledig	1.980886	0.210029	6.45	0	1.609194	2.438431
Awdurdod Lleol	Ynys Môn (cyf)						
	Gwynedd	2.028252	0.304673	4.71	0	1.510981	2.722605
	Conwy	0.3237153	0.059863	-6.1	0	0.2252966	0.465127
	Sir Ddinbych	0.2359239	0.043775	-7.78	0	0.1639966	0.339398
	Sir y Fflint	0.043006	0.012796	-10.57	0	0.0240026	0.077055
	Wrecsam	0.0873078	0.020282	-10.5	0	0.0553753	0.137654
	Powys	0.0887643	0.019498	-11.03	0	0.0577122	0.136524
	Ceredigion	0.5700964	0.080558	-3.98	0	0.4321839	0.752018
	Sir Benfro	0.1187052	0.025714	-9.84	0	0.0776393	0.181492
	Sir Gaerfyrddin	0.7356837	0.112392	-2.01	0.045	0.5453196	0.992502
	Abertawe	0.076675	0.020077	-9.81	0	0.0458951	0.128098
	Castell-nedd Port Talbot	0.1061083	0.025818	-9.22	0	0.0658619	0.170948
	Pen-y-bont ar Ogwr	0.0626659	0.019545	-8.88	0	0.0340055	0.115482
	Bro Morgannwg	0.0539335	0.0149	-10.57	0	0.0313839	0.092685
	Caerdydd	0.1185432	0.030365	-8.32	0	0.0717527	0.195846
	Rhondda Cynon Taf	0.1062894	0.031311	-7.61	0	0.0596685	0.189337
	Merthyr Tudful	0.0558719	0.016266	-9.91	0	0.0315783	0.098855
	Caerffili	0.0422681	0.014128	-9.47	0	0.0219531	0.081382
	Blaenau Gwent	0.0154464	0.006856	-9.4	0	0.0064716	0.036867
	Torfaen	0.0626957	0.022274	-7.8	0	0.0312483	0.125791
	Sir Fynwy	0.0142386	0.005128	-11.81	0	0.0070298	0.02884
	Casnewydd	0.0345941	0.01625	-7.16	0	0.0137771	0.086865
Statws Economaidd	Cyflogedig (cyf)						
	Di-waith	0.530573	0.15409	-2.18	0.029	0.3002878	0.93746
	Economaidd anweithgar	0.5707781	0.070803	-4.52	0	0.447588	0.727874
Ffrindiau/teulu agos	Dim ffrindiau/teulu agos (cyf)						
	1-2 o ffrindiau/teulu agos	2.356087	1.179857	1.71	0.087	0.8829486	6.287053
	3-5 o ffrindiau/teulu agos	3.350297	1.611605	2.51	0.012	1.305049	8.600819
	6-10 o ffrindiau/teulu agos	4.131279	1.98784	2.95	0.003	1.608842	10.60854
	Mwy na 10 o ffrindiau/teulu agos	4.745865	2.288387	3.23	0.001	1.844499	12.21103
Crefydd	Dim crefydd (cyf)						
	Cristion	1.767374	0.182188	5.52	0	1.444053	2.163087
	Crefydd Arall	0.335965	0.101904	-3.6	0	0.1854045	0.608807
Y Cymhwyster Uchaf	Lefel 4+ (cyf)						
	Lefel 3 ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol	0.5276838	0.070024	-4.82	0	0.4068357	0.684429

Ffactor	Categoriâu	Cymhareb Ods	Gwall Safonol	z	P>z	Cyfwng hyder o 95%	
						Isaf	Uchaf
	Lefel 2 ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol	0.53141	0.066632	-5.04	0	0.4156231	0.679454
	Islaw Lefel 2 ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol	0.5252964	0.084459	-4	0	0.383306	0.719885
	Dim cymwysterau	0.6357404	0.076961	-3.74	0	0.5014589	0.80598
	Cysonyn	0.280778	0.146685	-2.43	0.015	0.1008497	0.78172

Ystadegau heb eu pwysoli

Nifer yr arsylwadau = 13,159
 LR chi2(42) = 2983.98
 Tebygolrwydd > chi2 = 0.0000
 Tebygolrwydd log = -3429.0761
 Ffug-R2 = 0.3032

‘Gallu Siarad Cymraeg’

Rhestr gychwynnol o newidynnau a gafodd eu hystyried

Rhywedd; ethnigrwydd; statws priodasol; oedran; deiliadaeth; ardal drefol/ wledig; ardal awdurdod lleol; statws economaidd; bodlonrwydd ar fywyd ar y cyfan; anabledd neu afiechyd hirdymor cyfyngol; ffrindiau neu deulu agos; plant yn yr aelwyd; gorbryder ddoe; hapusrwydd ddoe; crefydd; cyfeiriadedd rhywiol; rhyngrwyd yn yr aelwyd; amddifadedd sylweddol; y cymhwyster uchaf; teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi; teimlo eu bod yn cael eu parchu; wedi cysylltu â'r cynghorydd lleol a theimlo eu bod yn perthyn.

Newidynnau a dynnwyd allan fel rhai nad oeddent yn rhagfynegyddion arwyddocaol ar eu pennau eu hunain

Gorbryder ddoe; cyfeiriadedd rhywiol; rhyngrwyd yn yr aelwyd a theimlo eu bod yn perthyn.

Newidynnau a dynnwyd allan oherwydd lluosgyflinelledd

Bodlonrwydd ar fywyd ar y cyfan a ffrindiau neu deulu agos.

